# Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau – Cychwyn

## Beth sy'n gweithio wrth gyflwyno rhaglenni cymunedol

Publication Date: 13 Mehefin 2022

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Trosolwg 2

Methodoleg 5

Astudiaeth achos Innovate Trust **Error! Bookmark not defined.**

# Cyflwyniad

Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein yn ymwneud yn bennaf â phobl – beth maen nhw'n ei wneud ar-lein a sut maen nhw'n ei wneud. Mae'n ymwneud â chynhwysiad, cyfranogiad, cysylltiad. Mae'n ymwneud â phobl yn gwneud y pethau y maent eisiau ac y mae angen iddynt eu gwneud, ar-lein, mewn ffordd fwy diogel. Mae sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein, fel llythrennedd a rhifedd oddi ar-lein, wedi'u gwasgaru'n anwastad ar draws y boblogaeth - gyda llawer o garfannau'n hyderus ac yn ffynnu ar-lein, a llawer gormod naill ai heb gysylltu neu heb fod yn hyderus, a heb fod yn ffynnu. Ac mae llawer o'r carfannau hynny heb gael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd gan sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y DU, gyda diffyg adnoddau a chyfleoedd i ddysgu mewn amgylchedd sy'n addas iddynt.

Fel y nodwyd gennym yn ein dogfen Ymagwedd at Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, mae Ofcom yn bwriadu cefnogi'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy gomisiynu mentrau i wasanaethu carfannau penodol mewn cymunedau y cydnabyddir bod ganddynt anghenion penodol o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Er mwyn gwneud hynny'n dda, roeddem am ddeall beth sy'n gweithio mewn rhaglenni sgiliau cymunedol. Cynhaliwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda staff (ac yn y rhan fwyaf o achosion, defnyddwyr gwasanaethau) o ddeg sefydliad ledled y DU. Daethom o hyd i enghreifftiau rhagorol o arfer gorau gan y sefydliadau hyn o ran cyflwyno mentrau addysg i gymunedau.

Cynhaliwyd yr ymchwil hon rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2022 gyda'r nod o nodi'r hyn sy'n gwneud ymyriad dysgu neu seiliedig ar sgiliau effeithiol mewn cyd-destun lleol. Er bod yr ymchwil yn rhan o'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, y nod oedd nodi arfer gorau o ran ymyriadau cymunedol seiliedig ar sgiliau ar unrhyw bwnc – nid mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn unig – a chywain mewnwelediad o amrywiaeth o safbwyntiau ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn y mae'r sefydliadau a defnyddwyr gwasanaethau wedi'i ddysgu ar hyd y ffordd.

Rydym wedi cydgrynhoi ein dysgu i gyfres o saith egwyddor arfer gorau ac argymhellion cyfatebol ar sut i fynd ati i ddarparu rhaglenni addysgol ar lefel leol. Ceir crynodeb o'r rhain yn Ffigur 1. Wrth i Ofcom symud tuag at gomisiynu ymyriadau yn y gymuned, ein bwriad yw glynu wrth yr egwyddorion hyn. Ar adegau, gall yr egwyddorion hyn herio ein ffyrdd arferol o weithio, gan fod gennym bethau i'w dysgu gan y bobl y bu i ni wrando arnynt.

Bydd pob ymyriad a gomisiynwn yn cael ei ystyried yn ofalus yn erbyn yr egwyddorion hyn, a thros amser, bydd yn cael ei werthuso i sicrhau bod y deilliannau'n cyflawni'r nodau a ddymunir. Mae diweddariad interim Ofcom ar ei hymagwedd at werthuso ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gael yma, a'r bwriad yw cyhoeddi arweiniad pellach yn yr hydref. Ein bwriad yw comisiynu tair ton o ymyriadau cyn diwedd Mawrth 2023, un yn yr haf, un yn yr hydref ac un yn gynnar yn 2023. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y broses hon cyn bo hir.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r arweinwyr, y rheolwyr gwasanaeth a'r defnyddwyr gwasanaeth ar draws y wlad a roddodd o'u hamser i rannu eu mewnwelediad, eu hawgrymiadau a'u pryderon gyda ni. Bu i ni ddysgu cymaint gennych chi ac mae ein gwaith yn gyfoethocach oherwydd eich mewnwelediad. Diolch.

# Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau prosiect ymchwil gwib i ddatgelu enghreifftiau o arfer gorau mewn ymyriadau sgiliau ar lefel leol. Rydym wedi cydgrynhoi ein canfyddiadau mewn saith egwyddor ac argymhellion cysylltiedig. Y dysgu allweddol o'r prosiect hwn yw bod angen atebion lleol ar gymunedau lleol ac felly mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o'r gwaith o greu a darparu'r atebion hyn. Yn ei hanfod, mae angen i'r gymuned addysgu ei hun, a rôl y darparwr yw creu'r amodau cywir i hynny ddigwydd.

### 1. Nid yw pobl yn barod i ddysgu dim ond oherwydd eich bod chi'n barod i addysgu

Cydnabod bod llawer o ffactorau'n effeithio ar ein gallu i ddysgu. Efallai y bydd angen cymorth unigol ar bob dysgwr. Mae'n rhaid i hyn fod yn seiliedig ar berthynas ddibynadwy â staff creadigol a dygn sydd â digon o amser ac adnoddau i greu ymyriadau dysgu hygyrch, cefnogi pob dysgwr a dileu rhwystrau i ddysgu.

Nodi'r neges graidd a'i chyfathrebu'n glir mewn ffordd sydd wedi'i theilwra i'r gymuned, e.e. ystyried iaith, sianeli a hygyrchedd. Cynllunio digon o amser ar gyfer marchnata a recriwtio, yn enwedig wrth dargedu cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.

### 2. Proses, nid trafodiad, yw newid ymddygiad

Darparu rhaglenni addysg sy'n seiliedig ar fodel o sut i newid ymddygiad.

Ystyried mecanweithiau i gynnal dysgu o fewn ac ar draws y gymuned; er enghraifft, ymagwedd hyrwyddwr cymunedol, neu gefnogi cyswllt parhaus a hyfforddiant gloywi ar gyfer staff a dysgwyr.

### 3. Gall yr hyn yr ydych yn meddwl y mae cymuned ei angen a'r hyn y mae ei angen yn wirioneddol fod yn bethau gwahanol iawn

Gofyn i gymunedau beth sydd ei angen arnyn nhw. Gallant gyfrannu eu profiad o lygad y ffynnon a herio ein rhagdybiaethau, ein tueddiadau a'n braint.

Targedu rhaglenni addysg at gymunedau lle mae anghenion nas diwallwyd.

### 4. Ni fydd cymunedau'n gwrando ar bobl nad ydynt yn eu hadnabod nac yn ymddiried ynddynt

Darparu rhaglenni addysg drwy sefydliadau partner sydd â pherthynas ddibynadwy â chymuned sydd heb ei gwasanaethu'n ddigonol ac sy'n gallu dangos cymhwysedd wrth gyflwyno yn erbyn yr egwyddorion yn y ddogfen hon.

### 5. Mae cymunedau wedi'u grymuso'n gymunedau sy'n dysgu

Galluogi hyblygrwydd yn y ddarpariaeth fel y gall cymunedau drosi deilliannau a ddymunir y rhaglenni i atebion lleol, gan ddefnyddio asedau lleol.

Bod yn agored i ymchwilio i amrywiaeth o fodelau cyflenwi ac ar yr un pryd, sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Harneisio neu greu amgylcheddau cynhwysol a hygyrch (ar-lein ac oddi ar-lein) lle gall pobl ddysgu oddi wrth ei gilydd.

### 6. Cefnogi arloesedd a arweinir gan y gymuned trwy gyflwyniad hyblyg

Cytuno ar awydd am risg sy'n galluogi ymagwedd gymesur at ymdrin â thystiolaeth/gwerthuso heb fygu hyblygrwydd ac arloesedd.

Hwyluso dysgu a gwerthuso'r hyn sy'n gweithio. Er enghraifft, defnyddio braenarwyr i ddatblygu a phrofi damcaniaethau newid.

### 7. Gall y model cyllido greu neu dorri rhaglen ddysgu

Mae angen i'r model ariannu gydnabod bod dileu rhwystrau posib i ddysgu weithiau'n gostus.

Creu targedau rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n bwrpasol ar lefel leol, h.y. y gwahaniaethau i unigolion a chymunedau dros y tymor canolig i'r hir dymor.

# Methodoleg

Cynhaliwyd ymarfer pen desg cychwynnol i nodi prosiectau o ddiddordeb ar gyfer yr ymchwil. Bu i aelodau'r tîm estyn allan yn uniongyrchol hefyd at aelodau o'r rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, i'w rhwydweithiau personol eu hunain ac i Gadeiryddion rhwydweithiau staff. Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i nodi prosiectau'n cynnwys:

- Prosiectau sy'n ymgysylltu ag oedolion sy'n agored i niwed mewn cymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, e.e. ardaloedd o amddifadedd neu gymunedau buddiant, o ran nodweddion gwarchodedig gan gydraddoldebau.
- Prosiectau wedi'u lleoli mewn lleoliadau gwledig a threfol ar draws y DU.
- Prosiectau a allai gymryd rhan ar unwaith yn y rhaglen ymchwil gyflym a gynhaliwyd rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2022.

Roedd deg prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn ac yn barod i gymryd rhan yn yr ymchwil o fewn yr amserlen a bennwyd. Y rhain oedd:

| ***Prosiect*** | ***Disgrifiad*** |
|---|---|
| **Challenging Violence Against Women** | Mae'r prosiect hwn, gan yr elusen Glasgow Community InfoSource, yn cynnwys tîm o ddynion sy'n gweithio mewn partneriaeth â dynion o gymunedau ceiswyr lloches a ffoaduriaid i daclo materion anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. |
| **Digital skills for older people** | Mae Good Things Foundation yn cefnogi rhwydwaith o sefydliadau lleol i gyflwyno hyfforddiant sgiliau digidol. Un o'r rhain yw Cross Gates & District Good Neighbours' Scheme CIO, sy'n darparu uwchsgilio digidol i bobl 60+ oed yn Leeds. |
| **Everyday Computer Skills course** | Ariannwyd y cwrs, gan Lead Scotland, gan SCVO ac fe'i cyflwynwyd mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored. Mae'r cwrs yn helpu pobl anabl i ddysgu sgiliau digidol ac fe'i datblygwyd gyda grŵp craidd o bobl anabl. |
| **Household Budget Support** | Nod y prosiect hwn, yng Ngorllewin Sussex, yw helpu cleientiaid cymorth argyfwng a gwasanaeth banc bwyd Horsham Matters i ymdrin ag achosion craidd eu caledi ariannol. |
| **Hungry Little Minds** | Mae'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth magu plant blynyddoedd cynnar mewn rhai o gymunedau tlotaf Lloegr, gan weithio drwy'r ymgyrch Hungry Little Minds, a ariennir gan yr Adran Addysg. |
| **Ap Insight** | Elusen yng Nghymru yw Innovate Trust sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i bobl ag anableddau dysgu, heriau iechyd meddwl neu namau corfforol. Mae ei Ap Insight yn gweithredu fel hyb cymunedol ar-lein. |
| **Make Sure It Adds Up** | Cyflwynwyd yr ymgyrch hon gan bartneriaeth Dosbarth Bradford o sefydliadau a llysgenhadon lleol gan gynnwys Cymuned Affricanaidd Bradford, ac fe'i harweiniwyd gan Bradford for Everyone. Ei nod oedd cael mwy o bobl i ymarfer |

| *Prosiect* | *Disgrifiad* |
|---|---|
| | a hyrwyddo 'meddwl yn feirniadol' wrth dderbyn a rhannu gwybodaeth ansicr naill ai ar-lein, wyneb yn wyneb, neu drwy negeseua gwib. |
| **Rainbow Grow** | Mae hwn yn grŵp garddio cymunedol dan arweiniad LHDTCI+ yn Hackney, Dwyrain Llundain, lle mae aelodau'n dysgu tyfu planhigion bwytadwy mewn amgylchedd trefol. |

Roedd y gweithgareddau ymchwil yn cynnwys cyfweliadau gyda'r staff, a chyfweliadau neu grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth. Y nod oedd cywain safbwynt strategol gan uwch reolwr, safbwynt gweithredol gan aelod o staff yn gweithio'n agosach at ddarparu'r gwasanaeth, a mewnwelediad o safbwynt defnyddwyr terfynol. Roedd rhai sefydliadau/prosiectau yn eithaf bach, felly dim ond un cyfweliad staff oedd ei angen. Roedd un prosiect (Rainbow Grow) yn cynnwys un cyfweliad gyda'r gwirfoddolwr sy'n rheoli'r grŵp ac sy'n aelod o'r gymuned. Mewn prosiect arall (Ap Insight) dim ond un cyfweliad a gynhaliwyd gydag aelod o staff gan nad oeddem yn gallu sicrhau ymgysylltiad pellach o fewn yr amser a oedd ar gael. O fewn yr amserlen a neilltuwyd, roeddem yn gallu ymgysylltu â sefydliadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ond ni fu modd i ni sicrhau argaeledd gan y sefydliadau y cysylltwyd â hwy yng Ngogledd Iwerddon.

Contractiwyd Jess McBeath gan Ofcom fel y prif gyfwelydd, gydag aelod o'r tîm MSOM. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams. Cafodd yr holl gyfweliadau eu cofnodi a'u trawsgrifio'n awtomatig. Cadwyd y recordiadau a'r trawsgrifiadau nes i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, ac y cafwyd cydsyniad yr holl gyfweleion i gael eu cyfweld. Enwir y deg sefydliad sy'n cymryd rhan yn yr adroddiad hwn, ond mae ymatebwyr unigol yn ddienw. Ni chynigiwyd unrhyw daliad ar gyfer cyfweliad, ond cynigiwyd cerdyn rhodd Lovetoshop gwerth £30 i'r defnyddwyr gwasanaeth fel diolch am gymryd rhan.

Un pwynt olaf i'w nodi ynghylch defnyddio cyfweliadau rhithwir yw'r dewis o feddalwedd fideo-gynadledda. Cyfyngwyd y prosiect ymchwil hwn i'r defnydd o feddalwedd a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion swyddfa, a greodd amrywiaeth o rwystrau wrth ymgysylltu â dysgwyr mewn cyfweliadau ar-lein neu grwpiau ffocws. Mae'r meddalwedd yn hygyrch trwy borwr ar gyfrifiadur yn unig – fodd bynnag, os yw dysgwr yn defnyddio dyfais symudol, mae'n ofynnol iddynt lawrlwytho'r ap, a all fod yn faich ar amser a defnyddio data ychwanegol. Mae angen hefyd i ddysgwr ymgyfarwyddo â sut i ddefnyddio'r ap. O ystyried yr anawsterau hyn, yn hytrach na gwahodd dysgwyr i ymuno â chyfarfod o gartref, hwyluswyd rhai o'n cyfarfodydd grŵp ffocws gan y prosiect h.y., gwahoddwyd dysgwyr i gyfarfod yn swyddfa'r prosiect, lle y byddent yn eistedd gyda'i gilydd ar gyfrifiadur gyda'r gweithiwr prosiect a fyddai'n rheoli'r alwad. Roedd hon yn ffordd ddefnyddiol iawn o sicrhau y gallai dysgwyr ymgysylltu â ni, ond bu hefyd iddo gyflwyno elfen o duedd gan fod dysgwyr yn trafod y prosiect ym mhresenoldeb y staff. Lle mae sefydliadau'n defnyddio offer ar-lein i ymgysylltu â dysgwyr, man cychwyn gwell yw gofyn pa offer y mae gan gymunedau fynediad iddynt, ac yna gweithio i ddileu'r rhwystrau i sicrhau y gellir defnyddio'r offer hyn.

Estynnwn ein diolch i'r sefydliadau a'r defnyddwyr gwasanaeth hyn am gynnig eu hamser a'u mewnbwn i'n helpu i ddysgu.

Un sefydliad a greodd gymuned ar-lein gynhwysol yw Innovate Trust, gyda'i ap Insight.

### Ap Insight (Innovate Trust)

Elusen yng Nghymru yw Innovate Trust sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i bobl ag anableddau dysgu, yn ogystal â phobl â heriau iechyd meddwl a namau corfforol.  Mae'n cynnal prosiectau gwirfoddoli i fyfyrwyr sy'n cefnogi aelodau oedrannus, ifainc, difreintiedig ac agored i niwed yn y gymuned leol.

Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ap cymdeithasol pwrpasol ar gyfer pobl a gefnogir, o'r enw Insight App.  Datblygwyd hwn yn wreiddiol fel mecanwaith ar gyfer galluogi pobl a gefnogir i rannu gwybodaeth ('dyddiadur digidol') am eu gweithgareddau, a'u hiechyd a lles, gyda'u ffrindiau, eu teulu a'u rhwydwaith cymorth.  Pan darodd y pandemig, ni allai pobl a gefnogwyd gael mynediad at wasanaethau dydd na chymorth arall, a sylweddolodd Innovate Trust y gallai ehangu ymarferoldeb yr ap i helpu gyda'r problemau hyn.  Newidiwyd yr ap o rannu gwybodaeth yn unig i fan lle gallai pobl gael mynediad at weithgareddau a chael eu cysylltu'n gymdeithasol: hyb cymunedol ar-lein. Mae'r ap yn galluogi unigolion i gyfathrebu â theulu, ffrindiau a chymheiriaid, ac ymuno mewn grwpiau a gweithgareddau ar-lein.  Gallant fynychu digwyddiadau byw neu wylio fideos wedi'u recordio ymlaen llaw fel dosbarth coginio, celf a chrefft, dysgu Cymraeg, Tai Chi, therapi cerddoriaeth a darlleniadau llyfrau byw.  Mae gan yr ap borthiant newyddion a heriau dyddiol fel dylunio poster neu wneud hufen iâ blas hwyliog.  Mae dros 250 o grwpiau ar yr ap, yn amrywio o wasanaethau eiriolaeth i arddio.

> "Dydyn ni ddim eisiau cyfyngu unrhyw un i allu cael mynediad at hyn"
>
> *Aelod o staff Innovate Trust*

Un ffordd y mae'r ap yn ymgysylltu â'i aelodau yw tudalen syniadau lle gall aelodau'r gymuned wneud eu hawgrymiadau eu hunain.  Mae pobl yn awgrymu gwelliannau i ymarferoldeb yr ap yn ogystal â gweithgareddau yr hoffent eu gwneud neu wasanaethau newydd yr hoffent eu gweld ar yr ap.   Fel yr esboniodd aelod o staff "*Nid oeddem am adeiladu rhywbeth y mae'n rhaid i bobl weithio allan sut i'w ddefnyddio.   Dywedasom, dyma'r braslun, awn ni ati i'w ddatblygu fel cymuned.*" Mae tîm a arweinir gan gymheiriaid sy'n helpu i ddatblygu'r ap ac yn cynnal arolygon rheolaidd o ddefnyddwyr i gywain adborth.

Mae Innovate Trust yn darparu arddangosiadau o'r ap, ac yn helpu i wella sgiliau digidol gweithwyr a staff partner, sydd yn eu tro yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.  Nodwyd nad yw gweithwyr proffesiynol eu hunain bob amser yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg, felly roedd yn bwysig cael gweledigaeth glir a rennir ynghylch pam mae'r ap mor bwysig, fel y byddent *eisiau* dysgu'r sgiliau yr oedd eu hangen arnynt.  Roedd hefyd yn hanfodol sicrhau bod gan y gweithwyr proffesiynol eu rhwydwaith cymorth eu hunain i'w helpu i ddysgu a magu hyder.

Darganfu tîm y prosiect y gall fod rhagdybiaeth nad oes gan ddefnyddwyr gwasanaeth y rhyngrwyd, neu nad oes ganddynt ddyfais/cysylltedd.  Ond mae gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr fynediad at dechnoleg (yn enwedig gan y darparwyd dyfeisiau yn ystod y pandemig), felly mewn gwirionedd mae'r rhwystrau i fynediad yn ymwneud yn bennaf â sgiliau digidol.  Ac mae ffocws cymorth sgiliau

digidol yn tueddu i fod ar weithgareddau fel 'sut i chwilio ar Google' neu 'sut i fod yn wyliadwrus am e-bost sbam' pan efallai y bydd angen mwy o ddysgu sylfaenol ar bobl e.e. sut i lawrlwytho ap a sut i gofrestru cyfrif arno: "*Nid yw pobl yn sylweddoli y gallwch chi Gwglo unrhyw beth*" (dyma dystiolaeth bellach o Egwyddor 3: What you think a community needs, and what they actually need, can be very different things).

Gall defnyddwyr sy'n agored i niwed wynebu mwy o berygl ar-lein[1], felly efallai na fydd apiau cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd yn cael eu hystyried yn fannau diogel i gymunedau fel aelodau Innovate Trust. Mae creu llwyfan bwrpasol ar gyfer y grŵp agored i niwed hwn yn ddatblygiad arloesol, ac mae sylwadau defnyddwyr gwasanaeth, gwirfoddolwyr a staff yn tanlinellu'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i chael. Mae rheoli gofod cyfryngau cymdeithasol yn dod â'i heriau ei hun o ran sicrhau diogelwch defnyddwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r risg ac mae ganddi dîm i reoli'r gymuned. Mae mynediad i'r ap drwy wahoddiad yn unig; nid yw'n agored i'r cyhoedd ymuno fel y mynnant. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori nodweddion yn yr ap i helpu i nodi postiadau amhriodol a gwirio delweddau a rennir, ac mae'n derbyn cymorth allanol i brofi'r ap, tra'n cydnabod na all byth fod 100% yn ddiogel.

Mae cydweithredu'n agwedd bwysig ar y prosiect hwn. Yn wreiddiol, creodd Innovate Trust yr ap i'w ddefnyddio gan ei aelodau ei hun yn unig, ond nod yr ymagwedd oedd gwella ansawdd bywyd yn hytrach na chystadlu â darparwyr gwasanaethau eraill: "*Roedd yr holl ddarparwyr hyn yn darparu gwasanaeth nad oedd yn hygyrch bryd hynny [yn ystod y pandemig], oherwydd nad oedd modd mynd â nhw i ddosbarth dawns*". Felly, gwahoddodd yr Ymddiriedolaeth yr awdurdodau lleol, ar draws y tair ardal ddaearyddol y mae'n darparu ar eu cyfer yng Nghymru, i gymryd rhan. Mae'r ap bellach wedi'i fabwysiadu nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y DU gyfan.

[1] https://www.internetmatters.org/hub/tags/vulnerable-children/